CYFARFOD: **CABINET**

DYDDIAD: **13 HYDREF 2020**

TEITL: **STRATEGAETH CYLLIDEB 2021/22**

PWRPAS: **CYNLLUNIO ARIANNOL**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID**

---

**Penderfyniad a geisir:**

> **Cymeradwyo trefn ac amserlen llunio Cyllideb 2021/22, tra'n nodi fod cynllunio ariannol yn hynod heriol, ac felly os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr.**

---

**Cefndir**

**1.** Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o drefn flynyddol llunio cyllideb am y flwyddyn 2021/22, yn y cyd-destun anghyffredin eleni.

**Gwariant y Cyngor**

**2.** Mae cyfrifwyr y Cyngor wrthi'n gwneud y gwaith paratoi'r gyllideb o ran anghenion gwario 2021/22, drwy amcangyfrif effaith cytundebau tâl, chwyddiant arall, addasu cyfraniadau pensiwn ac ymrwymiadau gwario eraill.

**3.** Yn anochel, bydd gwasanaethau'r Cyngor yn cyflwyno sawl cais am adnoddau ychwanegol yn wyneb pwysau anorfod, a bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol ac aelodau'r Cabinet yn asesu'r 'bidiau' yma dros y misoedd nesaf.

**Grant Llywodraeth**

**4.** Ochr arall y geiniog yw'r adnoddau grant fydd ar gael i'r Cyngor er mwyn ariannu'r ymrwymiadau yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bwriad i gyhoeddi eu **setliad drafft 2021/22 ar gyfer awdurdodau lleol ar 15 Rhagfyr 2020** ( ar ôl cyhoeddi eu Cyllideb Ddrafft 2021-22 nhw eu hunain ar 8 Rhagfyr 2020) a'r **setliad terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 3 Mawrth 2021** (ar ôl cyhoeddi eu Cyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021). Gall y dyddiadau hyn newid os bydd Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU yn cael ei ohirio, ac mae Trysorlys EM wedi cadarnhau yn ddiweddar "na fydd Cyllideb yr hydref hwn" er mwyn canolbwyntio ar "gynllun economi gaeaf" i "amddiffyn swyddi" wrth i Brydain fynd i mewn i gyfnod newydd o'r pandemig.

**5.** Bydd yr amserlen yma'n heriol i awdurdodau lleol, gyda chyfnod estynedig o ansicrwydd ariannol yn sgil cost annisgwyl yr argyfwng Covid-19, ond bydd Cyngor Gwynedd yn cychwyn o sylfaen gyllidol gymharol gadarn.

**6.** Bydd aelodau a swyddogion yn gwneud gwaith pellach dros y misoedd nesaf er mwyn cwrdd â'r amserlen i baratoi cynnig cyllidebol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021.

**Ansicrwydd Ariannol**

**7.** Ar hyn o bryd mae yna lawer iawn o ragdybiaethau a diffyg gwybodaeth, tra bod y cyflwr ariannol ac economaidd yn newid yn barhaus, ynghyd ag ymatebion y Llywodraeth. Wrth gynllunio cyllideb 2021/22 y Cyngor, rydym yn gwynebu ansicrwydd ariannol digynsail, yn cynnwys:

i. Effaith pandemig Covid-19 ar wariant, incwm, cynlluniau cynilo, a chyflymder yr adferiad.

ii. Ehangder cefnogaeth y Llywodraeth i osod yn erbyn cost ariannol y pandemig i'r Cyngor (bydd cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth yn lliniaru costau ychwanegol yn rhannol, colledion incwm ac o bosib diffygion refeniw o ganlyniad i'r pandemig a'r dirwasgiad yn 2020/21, ond ni fydd yn lliniaru cynigion arbedion na ellir ei gyflawni, ac nid yw cyllid ychwanegol 'Covid' wedi ei adnabod ar gyfer 2021/22).

iii. Y dirwasgiad disgwyliedig byd-eang wrth i ni ddod allan o gloi i lawr a diwedd y cyfnod pontio Brexit.

iv. Mae ardrawiad economaidd ac ariannol Brexit yn parhau i fod yn aneglur ac efallai y bydd angen cynnwys unrhyw bwysau cost i'r Cyngor o fewn cyllidebau presennol.

v. Tueddiad fod prisiau wedi cynyddu yn ddiweddar, ond fod hynny wedi'i atal gan bandemig Covid-19.

vi. Tueddiad o godiadau cyflog blynyddol uwch.

vii. Oedi tebygol gyda'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr roedd i fod i gymryd lle yn 2020, a dim arwydd o lefel cyllido craidd / grant erbyn 2021/22 a thu hwnt.

viii. Diffyg yn y pŵl cenedlaethol trethi busnes, sydd i'w ddosbarthu i awdurdodau lleol yn 2021/22.

ix. Derbyniodd y Cyngor setliad grant mwy ffafriol am 2020/21, na mewn blynyddoedd blaenorol.

x. Bydd etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2021.

xi. Cynigion heb eu cadarnhau gan y Llywodraeth ar gyfer cyllid hir-dymor cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion.

xii. Dim cadarnhad o gyllid ychwanegol ar gyfer beichiau newydd a phwysau galw eraill gan gynnwys gofal cymdeithasol, digartrefedd a mwy o hawliadau am Ostyngiadau Treth Cyngor.

**Casgliad**

**8.** O ganlyniad, **mae cynllunio ariannol yn hynod heriol**, gydag ystod o senarios posib yn awgrymu bwlch cyllido ar gyfer 2021/22 a allai fod unrhyw swm hyd at £8m (gan dybio bod rhai o'r risgiau a restrir uchod yn anghydnaws â'i gilydd), gyda'r ystod o ganlyniadau posibl yn cynyddu'n eang y tu hwnt i 2021/22. **Wrth gynllunio ar gyfer 2021/22, os bydd bwlch cyllido fe ddylai sylfaen gyllidol gymharol gadarn Cyngor Gwynedd ganiatáu i ni 'bontio' yn y tymor byr.**

**Argymhelliad**

**9.** Deallwn, wrth gwrs, bydd y Cyngor awydd osgoi ystyriaeth dwys a diangen o restrau arbedion a thoriadau gwasanaeth dichonol yn ystod ail don tebygol o'r pandemig Covid-19. Felly, **os bydd bwlch cyllido i fantoli cyllideb 2021/22, argymhellir i'r Cyngor ystyried defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau**, ynghyd â'r angen i'r dreth Cyngor gynyddu (rhagdybiaeth 3.5%, fel rhagdybiwyd eisoes mewn cynlluniau cyllideb tymor canolig blaenorol).

**Camau i'r Dyfodol**

**10.** Mae'n hynod fuddiol ein bod yn gallu defnyddio cronfeydd wrth gefn i liniaru pwysau cyllidebol nawr, mewn argyfwng cenedlaethol. Yn y tymor hwy, bydd angen ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn y Cyngor, fel eu bod ar gael pan fydd eu hangen yn y dyfodol.

**11.** Pan fydd y Cyngor yn wynebu llai o ansicrwydd ariannol, yn ystod 2021, bydd y Swyddog Cyllid Statudol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn sefydlu cynlluniau cyllideb tymor canolig, gan adolygu unrhyw benderfyniadau a gymerwyd yn flaenorol.

**12.** Bydd y Cabinet yn derbyn adroddiadau pellach ym mis Rhagfyr 2020 ac ym mis Chwefror 2021, fel mae gwybodaeth ariannu pellach ar gael ac fel mae cynlluniau cyllido ar gyfer 2021/22 yn datblygu.

**13.** Yn Ionawr, bydd aelodau'r Cabinet yn ystyried ymrwymiadau gwario anorfod y Cyngor yng nghyd-destun y setliad grant drafft, cyn bydd yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid yn ymgynghori gyda holl Aelodau'r Cyngor mewn cyfres o seminarau rhithiol.

**14.** Gweler amserlen cyllideb y Cyngor yn **Atodiad A**.

**15.** Byddwn yn ymlynu at yr amserlen flynyddol arferol o adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (11 Chwefror, i gynnig sylwadau ar risgiau ariannol), y Cabinet (16 Chwefror, i argymell cyllideb a threth), a'r Cyngor llawn (4 Mawrth, i osod y gyllideb a'r Dreth Cyngor, sydd rhaid ei osod erbyn 11 Mawrth).

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Amlygir sefyllfa ansicr a heriol o ran cynllunio cyllideb ar gyfer 2020/21. Mae cyfres o ddyddiau statudol yn ynghlwm a gosod y gyllideb. Mae'n briodol adrodd ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y mabwysiadu cyllideb 2020/21 gan fod yr amserlen a ragwelir ac fel y nodir yn yr adroddiad a'r potensial i gael ardrawiad ar amserlenni cyfansoddiadol y Cyngor. Mae'n synhwyrol i gadw'r sefyllfa ym dan adolygiad.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---